

Amgueddfa Caerdydd

Ymweliadau a Gweithdai Dysgu i blant 3-11 oed



DIDDOROL, GRYMUSOL A RHYNGWEITHIOL

Amgueddfa Caerdydd
Yr Hen Lyfrgell
Yr Aes
Caerdydd
CF10 1BH



029 2034 6214
storicaerdydd@caerdydd.gov.uk
AmgueddfaCaerdydd.com
www.facebook.com/cardiffstory
[@thecardiffstory](https://twitter.com/thecardiffstory)



Ni yw'r amgueddfa sy'n adrodd stori Caerdydd.

Rydyn ni'n amgueddfa hanes cymdeithasol, felly rydyn ni'n defnyddio straeon personol pobl i adrodd hanes Caerdydd.

BETH RYDYM YN EI WNEUD?

Amgueddfa hanes cymdeithasol yw Amgueddfa Caerdydd sy'n archwilio Caerdydd drwy straeon personol, gwrthrychau ac atgofion pobl.

Mae pedwar diben y Cwricwlwm Newydd i Gymru a'r datganiadau Beth sy'n Bwysig yn sail i raglenni dysgu ffurfiol Amgueddfa Caerdydd, yn ei dull o ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi.

Fel rhan o ymweliad bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o wahanol brofiadau'r bobl a'r cymunedau sydd wedi siapia'r Gaerdydd a welwn heddiw.

Drwy ddefnyddio gwrthrychau a straeon, bydd dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cynefin nhw eu hunain ac eraill, gan ddefnyddio meddwl beirniadol a sgiliau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol), y gallant eu defnyddio ar hyd eu fywydau fel dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu.



Trwy gymryd rhan yn ymweliadau a gweithgareddau'r amgueddfa, a ddyluniwyd gan ac ar eu cyfer nhw, bydd dysgwyr yn dod yn unigolion hyderus a gwybodus, wedi'u grymuso i ddysgu am a rhannu eu treftadaeth, nawr ac yn y dyfodol.

Mae orielau'r amgueddfa'n archwilio'r newidiadau cymdeithasol, diwylliannol, technolegol ac economaidd sydd wedi digwydd yn y ddinas drwy fywydau ei phobl. Mae ymweliad â'r amgueddfa yn cynnig profiadau grymusol ac ymrochol gan gefnogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd. Byddant yn magu gwybodaeth a dealltwriaeth o Gaerdydd a'i straeon lleol ac ehangach, fel prifddinas Cymru.

Os oes angen gweithdy dysgu arnoch sy'n archwilio unrhyw beth sy'n gysylltiedig â Chaerdydd, sut a pham mae'r ddinas wedi newid a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar fywydau pobl yn y gorffennol, heddiw a'r dyfodol... cysylltwch â ni nawr!



BETH SYDD YN EIN HORIELAU?

Mae'r oriel Caerdydd Mewn Cyd-destun yn adrodd hanes trawsnewidiad Caerdydd o dref farchnad fechan yn y 1300au i un o borthladdoedd mwyaf y byd yn y 1900au i'r briffddinas rydym yn ei hadnabod heddiw. Mae arddangosfeydd rhyngweithiol yn eich galluogi i ddarganfod straeon am bobl y ddinas, eu cartrefi, bywydau gwaith, yr adeiladau a'r drafnidiaeth maen nhw wedi'u defnyddio, dociau Caerdydd, y cymunedau cynharaf a ymgartrefodd yng Nghaerdydd, perthynas Caerdydd â'r Cymoedd a Chaerdydd fel dinas fodern.

Mae'r oriel Lab y Ddinas yn cynnig profiad dysgu mwy rhyngweithiol fyth i ddysgwyr.

Mae Den Dewi'n annog plant o dan 5 oed i ddysgu drwy wisgo lan a chwarae rôl. Mae'r Gorsafoedd Gweithredu'n annog dysgwyr 7+ i archwilio themâu gwahanol yn hanes Caerdydd, e.e. mudo, gan ddefnyddio dysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

YMWELIADAU DYSGU A GWEITHDAI

Gellir addasu'r ymweliadau a gweithdai canlynol yn unol â'ch cwricwlwm ac anghenion y dysgwyr - trafodwch gyda'r Swyddog Dysgu drwy ffonio **029 2034 6214** neu e-bostio **storicaerdydd@caerdydd.gov.uk**

I BLANT 3+ OED

Archwilio ein horielau (ymweliad hunan-dywys)

Amser : argymhellir - 1.5 awr – 2 awr

Cost : £1.00 (+ TAW*) fesul dysgwr

Cysyniadau : newid, cymuned, cronoleg, dysgu yn seiliedig ar dystiolaeth

Archwiliwch ein horielau rhyngweithiol ar ymweliad hunan-dywys a defnyddio ein

Blychau Darganfod i wella cyfleoedd dysgu. Mae'r Blychau Darganfod yn caniatáu i athrawon ymhelaethu ar rai o'r negeseuon a'r cysyniadau allweddol yn ein harddangosfeydd. Byddan nhw'n annog disgyblion i edrych ar y canlynol - sut mae gwrthrychau yn y cartref wedi newid dros amser, sut mae'r dociau wedi newid, a pham bod cymunedau gwahanol wedi dod i Gaerdydd.



Straeon Caerdydd, taith oriel (ymweliad wedi'i hwyluso)

Amser : 1 awr

Cost : £4 (+ TAW*) fesul disgybl

Cysyniadau : Cwestiynu, tystiolaeth, gwerthuso ac arwyddocâd

Gall ein Swyddog Dysgu gynnig taith arbennig iawn o gwmpas ein horielau i ddisgyblion. Os ydych yn ymdrin â chysyniad penodol yn yr ysgol gellir ymgorffori hwn yn y gweithdy. Siaradwch â'n Swyddog Dysgu am ragor o wybodaeth.

GWEITHDAI AR GYFER PLANT 5+ OED

Mae pob un o'n gweithdai yn gallu cael eu darparu i uchafswm o 30 disgybl.

Rydym yn cynnig y gweithdai canlynol:

Gellir cynnal gweithdai gyda seren wrth eu hymyl yn rhithwir dros Microsoft Teams neu wyneb-yn-wyneb yn Amgueddfa Caerdydd.

***Straeon Caerdydd – gweithdy**

Amser : 1 awr

Cost : £4 (+ TAW*) fesul disgybl

Cysyniadau: Cwestiynu, tystiolaeth, gwerthuso, moeseg a barn a safbwyntiau, cronoleg, newid a pharhad.

Mae'r gweithdy hwn yn archwilio sut y gall dysgwyr ddod yn 'dditectifs hanes', gan ddefnyddio gwahanol fathau o dystiolaeth fel gwrthrychau, straeon a ffotograffau i archwilio eu treftadaeth. Bydd dysgwyr yn

meithrin sgiliau ymchwil a chyfathrebu, gan ddatblygu eu hymdeimlad o ryfeddod a'u gallu i gymhwyso'r hyn maen nhw'n ei ddysgu a'i gysylltu i'w bywydau heddiw.

***Straeon mudo: Cymunedau amrywiol Caerdydd**

Amser : 1 awr

Cost : £4 (+ TAW*) fesul disgybl

Cysyniadau: cymuned, mudo, hunaniaeth a pherthyn, amrywiaeth.

Dysgwch pam fod pobl o bob cwr o'r byd wedi dod i Gaerdydd ac ymgartrefu yma. Bydd straeon personol yn cael eu defnyddio i archwilio'r themâu mudo ar gyfer gwaith, cyfleoedd newydd, gwrthdaro, rhyfel, teulu a ffrindiau.



*'Bywyd fel plentyn' pecynnau dysgu cyfunol hunan-dywys a dan arweiniad

Rydym wedi dylunio tri phecyn dysgu newydd; pob un yn edrych ar y cysyniad o 'fywyd fel plentyn' yn ystod cyfnodau gwahanol mewn amser. Bydd y pecynnau'n annog dysgwyr i dynnu cymariaethau rhwng bywyd yn y gorffennol a bywyd heddiw.

Wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion cynradd, mae'r pecynnau'n cynnig profiad dysgu cyfunol gyda phob pecyn yn cyfuno amrywiaeth o ffynonellau. Gan ddefnyddio ffotograffau hanesyddol, gwrthrychau'r amgueddfa a straeon personol, bydd disgyblion yn archwilio hanes Caerdydd ac yn meithrin gwybodaeth am eu hardal, eu cymunedau a'u treftadaeth a dealltwriaeth ohonynt.



Yn ogystal â'r prif gyflwyniad adnodd digidol, byddwch yn derbyn nodiadau addysgu a fersiwn hawdd ei ddeall o'r adnodd. Mae pob pecyn wedi'i gynllunio i ategu'r Cwricwlwm Newydd i Gymru.

Mae tri phecyn i chi ddewis ohonynt, pob un yn cynnwys adnodd dysgu cyfunol.

Mae'r pecynnau ar gael i'w defnyddio naill ai ar sail hunan-dywys neu dan arweiniad yr amgueddfa, a fydd yn cael ei hwyluso dros Microsoft Teams gan Swyddog Dysgu'r amgueddfa.

Dewiswch o'r canlynol:

Bywyd fel plentyn: Caerdydd Oes Fictoria

Cysyniadau: hawliau plant, newid, newidiadau ym mywyd y cartref a thechnoleg.

Bywyd fel plentyn: Yr Ail Ryfel Byd

Cysyniadau: Gwrthdaro, digwyddiadau'r byd a hanes, newidiadau ym mywyd y cartref, newid.



Bywyd fel plentyn: Bryd Hynny a Nawr

Cysyniadau: Cynaliadwyedd amgylcheddol, moeseg, newid cymdeithasol, newid.

Costau:

Pecyn hunan-dywys : £75* (60 o ddisgyblion ar y mwyaf)

Pecyn dan arweiniad yr amgueddfa : £150* (Hyd at 2 weithdy x 1 awr wedi'u hwyluso ar gyfer 60 o ddisgyblion ar y mwyaf)

*Nid yw'r prisiau'n cynnwys TAW (dim TAW i'w gynnwys ar gyfer ysgolion Cyngor Caerdydd).



Creu arddangosfeydd

Amser : 4 awr

Cost : £16 (+ TAW*) fesul disgybl

Mae hwn yn weithdy rhyngweithiol lle bydd disgyblion yn darganfod sut y gwnaethom greu Amgueddfa Caerdydd a sut y gallant greu eu harddangosfa eu hunain. Bydd y disgyblion yn dysgu sut i adrodd straeon yn eu harddangosfa, yn archwilio gwahanol adnoddau y gallant eu defnyddio ac yn meddwl sut y gallant wneud eu harddangosfa'n ddiddorol i lawer o wahanol bobl.

*Ni chodir TAW ar ysgolion Cyngor Caerdydd.



Y CAM NESAF

Os oes gennych ddiddordeb yn unrhyw un o'r ymweliadau a'r gweithdai uchod, cysylltwch â'n Swyddog Dysgu ac Allgymorth ar 029 2034 6214 neu e-bostiwch storicaerdydd@caerdydd.gov.uk

Museum of
Cardiff

Amgueddfa
Caerdydd